



**Cofnodion Cyfarfod Partneriaeth
 Tyfu Canolbarth Cymru
 Y Siambr, Neuadd Cyngor Ceredigion
 Dydd Iau, 6ed Hydref 2016
 14.00pm –16.25pm**




Mynychwyr

Cyng. Barry Thomas, Cyngor Sir Powys (Cadeirydd)
Cyng. Ellen Ap Gwynn, Cyngor Sir Ceredigion (Is-gadeirydd) (2pm-4pm)
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion (AE)
Ann Watkin, Llywodraeth Cymru (AW)
Arwyn Watkins, Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (ArwynW)
Claire Miles, Swyddog Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru (CM)
Cyng. Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion (Cyng.AW)
Cyng. Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion (2pm – 4pm) (Cyng.GL)
Gareth Price, Fforwm Twristiaeth Canolbarth Cymru (GP)
Huw Morgan, Cyngor Sir Ceredigion (HTM)
Hywel Davies, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (HD)
Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion (JW)
Jane Lewis, Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (JL)
Mike Shaw, Cyngor Sir Ceredigion (MS)
Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys (PG)

Yn bresennol

Rob Halford, Llywodraeth Cymru
Nerys Lewis, Rheolwr Prosiect Cylch Caron, Cyngor Sir Ceredigion

<p>1. Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau</p>	<p>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Jeremy Patterson, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys • Cynghorydd Avril York - Daliwr Portffolio Adfywio a Chynllunio • Russell Hughes-Pickering – Cyngor Sir Ceredigion • Paul Evans – Venture-Automotive • Mared Jones – Undeb Amaethwyr Cymru • Barry Liles – Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol • Jenni Thomas - Cyngor Sir Powys • Ceri Stephens - Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru • Jane Davidson – Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant • Dr Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth
--	--

<p>2. Cofnodion cyfarfod 29ain Gorffennaf a Materion yn Codi (Atodiad A)</p>  <p>Appendix A - Draft GMW Partnership Min</p>	<p><u>Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain Gorffennaf 2016</u></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 29ain Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion.</p>	
<p>3. Adborth o'r cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith</p>	<p>Rhoddodd y Cadeirydd (BT) a'r Is-gadeirydd (EAG) adborth ar eu cyfarfod diweddar â Ken Skates, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Adroddwyd bod y cyfarfod yn un agored a'u bod wedi llwyddo i drafod anghenion Canolbarth Cymru, gan gynnwys sgiliau, cyflogaeth, cadw pobl ifanc yn yr ardal, ynghyd ag amcanion eraill Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (TCC).</p> <p>Nodwyd bod Ken Skates AC wedi cydnabod a chadarnhau rôl Partneriaeth TCC fel y corff cydweithredol ar gyfer hyrwyddo'r economi a sgiliau yn y rhanbarth.</p> <p>Roeddent wedi gwahodd Ken Skates AC i fynychu cyfarfod nesaf y Bartneriaeth oedd i'w gynnal ar 6ed Ionawr 2017 yn Llandrindod, Powys.</p> <p>Adroddodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu bod erbyn hyn yn gweld pwysigrwydd cwrdd â Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, oherwydd pwysigrwydd y portffolio hwnnw o fewn yr economi wledig, yn ogystal ag effaith Brexit ar amaethyddiaeth.</p> <p>Gweithredu: Cyfarfod i'w drefnu rhwng Lesley Griffiths AC a Chadeirydd ac Is-gadeirydd Partneriaeth TCC.</p>	
<p>4. Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru: diweddariad (Atodiad B)</p>  <p>Appendix B Cross Sector Working Group</p>  <p>Appendix 1.docx</p>	<p>Rhoddodd MS ddiweddariad manwl i'r Bartneriaeth ar gyfarfodydd y Gweithgor Traws-sector a gynhaliwyd ar yr 8fed a'r 14eg o Fedi 2016.</p> <p>Cafwyd y diweddaraf am:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol – Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau • Ystyried cynnig i ddatblygu cyfleusterau ymchwil arbenigol ar y cyd i gefnogi gwaith iechyd anifeiliaid gyda chwmnïau ym Mhrifysgol Aberystwyth • Ymateb i ymgynghoriadau • Prawfesur rhanbarthol - prosiectau newydd a phrosiectau sydd i ddod fel a ganlyn: 	



- *Go Wales: Cyflawni Trwy Brofiad Gwaith*
- *Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru II*
- *Prosiect Diwydiant Cymru*

Cyfeiriodd y trafodaethau at y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol – Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau, a nododd yr Is-gadeirydd ei bod hi a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, Bronwen Morgan, wedi cwrdd â Jane Lewis a Barry Liles o'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol y diwrnod cynt (5ed Hydref 2016

) i drafod pryderon. Nododd yr Is-gadeirydd fod y cynllun ar hyn o bryd yn canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, ac nid yw'n rhoi digon o sylw i anghenion canolbarth Cymru, na blaenoriaethau a ffocws Partneriaeth TCC. Nododd JL y byddai drafft nesaf Cynllun Cyflawni Rhanbarthol y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn debygol o fod yn barod erbyn diwedd Mawrth 2017, gyda'r bwriad o gwblhau'r cynllun a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 28ain Gorffennaf 2017. Nododd JL y bydd drafft yn cael ei gyflwyno i Bartneriaeth TCC yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer ei drafod er mwyn gallu cytuno ar y Cynllun erbyn 28ain Gorffennaf 2017.

Nododd JL fod ganddynt gynlluniau ar un adeg i lansio Cynllun Cyflawni Rhanbarthol y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn hwyrach ym mis Hydref, ond bod y dyddiad hwnnw wedi'i ohirio erbyn hyn i ddechrau Rhagfyr. Nododd JL na fyddai modd cynnwys barn TCC yn y ddogfen bresennol, ond byddent yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r Cynllun.

Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog dros Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James AC, i drafod sgiliau o fewn rhanbarth Canolbarth Cymru.



Cytunodd y Bartneriaeth TCC i'r argymhellion oedd yn adroddiad MS, sef:

- Croesawu Cynllun Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a'r dulliau a fabwysiadwyd, ond gofyn bod y materion a godwyd yn y Gweithgor Traws-sector yn cael eu cynnwys ac yn cael sylw penodol yn y Cynllun:
 - a. Cydnabod a mynd i'r afael â diffygion posib yn y gweithlu rhanbarthol, (gan nodi'r ddibyniaeth ar lafur o wledydd Ewropeaidd eraill o fewn busnesau lleol allweddol).
 - b. Cydnabod a mynd i'r afael ag anawsterau recriwtio llafur a llenwi prentisiaethau posib, hyd yn oed lle gall cyfleoedd priodol fod ar gael.

	<p>c. Tanlinellu'r angen i osod gwerth ar gyflogaeth leol a'r gweithlu lleol fel cyrchfannau o fewn y gymuned i'r rhai sy'n gadael ysgol.</p> <p>d. Er bod yna gyfeiriad yn y Cynllun at yr heriau arbennig o fewn y rhanbarth hwn o ran cael mynediad at hyfforddiant pan fydd ei angen, cânt eu tanseilio gan y ffocws dinesig. Mae'r dull a fabwysiadir gan y Cynllun yn methu â chydabod effaith, maint ac ehangder yr economi wledig wasgaredig ar draws ardaloedd Canolbarth Cymru a Dinas-ranbarth Bae Abertawe.</p> <p>e. Nodi unwaith eto nad oedd y broses o baratoi'r Cynllun yn 2016, er yn cynnwys mwy o ryngweithio a thrafodaethau, yn caniatáu digon o amser ar gyfer ystyriaeth ffurfiol gan y Bartneriaeth hon o'r drafft terfynol, ac mae angen i'r paratodau yn y dyfodol sicrhau bod y drafft terfynol ar gael mewn da bryd i'r Bartneriaeth ei ystyried.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bartneriaeth i gadarnhau y bydd Gweithrediad Blaenoriaeth 4.4 ERDF Canolbarth Cymru'n cael ei adnabod fel "Vet Hub 1", gan nodi'r aliniad gyda dogfen Fframwaith Gweithredu'r Bartneriaeth a'r cyfleoedd i greu Canolfan Gwyddor Filfeddygol ar gyfer Cymru, cyfleusterau iechyd anifeiliaid, a chyfleusterau arbenigol i gynnal ymchwil ar y cyd â chwmnïau sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn o fewn y rhanbarth. • Yn dilyn trafodaethau cytunodd y Bartneriaeth y dylid cyflwyno'r ymatebion drafft canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a. Ken Skates AC mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar Flaenoriaethau ar gyfer yr Economi (Atodiad 1) gyda phwynt pellach wedi'i ychwanegu ar yr angen i ddatblygu polisi rhanbarthol ar gyfer Cymru yng nghyd-destun y newidiadau presennol. b. Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Ymchwiliad i Ddyfodol Polisiâu Amaethyddol a Datblygu Gwledig yng Nghymru (Atodiad 2) gyda pharagraff gobennol pellach ar iechyd anifeiliaid a gwyddor filfeddygol. • Croesawu Gweithrediadau GCC a DC Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Go Wales: Cyflawni Trwy Brofiad Gwaith, ond gofyn am eglurhad pellach ynghylch 	
--	--	--

	<p>cymhwysedd trigolion Dwyrain Cymru, a chael mynediad i gyfleoedd AU o fewn AB yn ardaloedd y Gororau. Hefyd parhau i weithio gyda chysylltiadau lleol i sicrhau bod y gweithrediadau'n gwneud y cyfraniad mwyaf posib i Fframwaith y Bartneriaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Croesawu a chefnogi'r gweithrediad Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru II oherwydd ei gyfraniad i strategaeth y rhanbarth hwn, sydd wedi'i hamlinellu yn y "Fframwaith Gweithredu". Parhau i weithio gyda chysylltiadau lleol i sicrhau bod y gweithrediadau'n gwneud y cyfraniad mwyaf posib i Fframwaith y Bartneriaeth. • Er bod y Gweithgor Traws-sector wedi argymhell na ddylai'r Bartneriaeth gefnogi'r gweithrediad Prosiect Diwydiant Cymru, roedd gwybodaeth newydd wedi'i derbyn erbyn hyn oedd yn gwneud hi'n briodol i roi ystyriaeth bellach i'r gweithrediad, ac yn arbennig ei gyfraniad o fewn y sector preifat yn y rhanbarth. Bydd argymhelliad diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Bartneriaeth pan fydd hyn wedi'i gwblhau. <p>Diolchodd y Cadeirydd i MS am ei adroddiad i'r Bartneriaeth TCC heddiw.</p>	
<p>5. Dogfen Fframwaith TCC</p>	<p>Cyfeiriwyd at Ddogfen Fframwaith TCC, y dosbarthwyd copïau ohoni yn ystod y cyfarfod.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch digwyddiad lansio ar gyfer y Ddogfen. Roedd y posibiladau wedi'u trafod yn y Gweithgor Traws-sector, yn arbennig sut i gynnwys prif randdeiliaid y sector preifat. Cytunodd yr aelodau y byddai'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd ar 28ain a 29ain Tachwedd 2016 yn gyfle da i lansio'r ddogfen, gan wahodd cynrychiolaeth o'r sector preifat yn ogystal â'r Gweinidog Ken Skates AC. Codwyd pryder y byddai defnyddio'r Ffair Aeaf yn atgyfnerthu'r ddelwedd bod economi'r rhanbarth yn un amaethyddol yn bennaf, gan dynnu oddi ar sectorau eraill sy'n tyfu o fewn y rhanbarth.</p> <p>Gweithredu: Archwilio trefniadau i gynnal digwyddiad lansio yn y Ffair Aeaf ar un ai'r 28ain neu'r 29ain Tachwedd 2016. (CM/MS/JT)</p>	
<p>6. UE – Trefniadau Pontio</p>	<p>Rhoddodd Rob Halford, WEFO, Llywodraeth Cymru, ddiweddariad ar y trefniadau pontio UE hyd yn hyn. Roedd y prif bwyntiau a danlinellwyd fel a ganlyn:-</p> <p>Mae Erthygl 50 yn debygol o gael ei sbarduno yn y Gwanwyn 2017. Mi fyddai'n cymryd dwy flynedd wedi hynny i lywio ffordd ymlaen.</p>	

	<p>Nododd RH y dylai'r Bartneriaeth a'r rhanddeiliaid weithredu yn y ffordd arferol a chadw'r momentwm i fynd, gan symud ymlaen gyda buddsoddiadau, tra'n cydnabod y risg dan sylw. Roedd angen cymryd pob prosiect/risg "fesul un a bod yn barod ar gyfer beth fyddai'n dod nesa". Dywedodd RH, ers iddo adrodd i'r Bartneriaeth ddiwethaf, fod y Trysorlys wedi rhoi sicrwydd y byddai pob gweithrediad a gymeradwywyd yn y lle cyntaf gan Ddatganiad yr Hydref (yn Awst), ac mewn datganiad dilynol, a phob gweithrediad a gymeradwywyd cyn i'r DU adael yr UE, yn parhau i gael ei ariannu nes ei fod wedi'i gwblhau yn unol â'r bwriad, dim ond iddo fodloni rhai amodau arbennig. Roedd y sicrwydd hwn yn fuddiol, a gallai rhanddeiliaid yn awr ganolbwyntio ar y gwaith arferol o gael cymeradwyaeth, tynnu arian i lawr o gronfeydd a ddyrannwyd, a chyflawni'r hyn a fwriadwyd.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i RH am fynychu cyfarfod y Bartneriaeth heddiw, gan ofyn bod y diweddariadau hyn yn parhau i gael eu darparu fel bo angen.</p> <p>Yna atebodd RH gwestiynau'r Aelodau.</p>	
<p>7. Cyflwyniad: Prosiect Cylch Caron</p>  <p>Growing Mid Wales.pptx</p>	<p>Cafwyd cyflwyniad gan Nerys Lewis, Rheolwr Prosiect Cylch Caron, Cyngor Sir Ceredigion, ar gynnydd prosiect Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron. Bydd Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron yn cwrdd ag anghenion gofal, iechyd a thai y rhai sy'n byw yn ardal Tregaron yng Ngheredigion.</p> <p>Mae copi o'r Cyflwyniad ynghlwm er gwybodaeth.</p> <p>Prif nodweddion y Cyflwyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefndir y prosiect • Y sefyllfa bresennol • Ymrwymiad y Bartneriaeth • Gwydnwch Cymunedol • Gweledigaeth y Prosiect • Model Cylch Caron • Gwersi a Ddysgwyd <p>Diolchodd y Cadeirydd i Nerys Lewis am ei chyflwyniad addysgiadol i'r Bartneriaeth heddiw, a dymunodd pob llwyddiant i brosiect Cylch Caron.</p> <p>Yna cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau.</p>	
<p>8. Cyfarfod ar y Cyd â Phartneriaeth Menter Leol y Gororau, 14eg</p>	<p>Nododd MS fod cyfarfod ar y cyd rhwng Partneriaeth TCC a Phartneriaeth Menter Leol y Gororau wedi'i drefnu ar gyfer Dydd Llun, 14eg Tachwedd 2016, ar Gae Ras Llwydlo, rhwng 11am a 2pm. Gwahoddir holl aelodau Partneriaeth TCC i fynychu.</p>	

<p>Tachwedd 2016.</p>	<p>Nododd MS y bydd swyddogion yn gweithio ar y cyd i lunio Agenda ar gyfer y diwrnod dros yr wythnos nesaf.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau i nodi'r dyddiad yn eu dyddiaduron. Dosberthir marciwr dyddiadur yn ogystal.</p> <p>Gweithredu: Aelodau Partneriaeth TCC i nod i'r dyddiad yn eu dyddiaduron.</p> <p>Gweithredu: Marciwr Dyddiadur i'w ddsbarthu (Gweinyddol)</p>	
<p>9. Diweddariad Trafnidiaeth Strategol Chwarter 3 2016 (Atodiad C)</p>  <p>Appendix C - Strategic Transport U</p>	<p>Trafnidiaeth Strategol Chwarter 3 – cyflwynodd AE y diweddariad sydd ynghlwm.</p> <p>Yn ôl AE ymddengys bod yna, o fewn rhyddfaint WMR, effaith bosib ar Reilffordd y Cambrian yng Nghanolbarth Cymru, am fod y gwasanaethau'n defnyddio'r un rhan o'r trac â Rhyddfaint WMR rhwng yr Amwythig a Birmingham. Nododd AE fod eu briff yn cynnwys yr awydd i ddisodli Gwasanaeth Trenau Arriva Cymru sy'n rhedeg yn llai aml, ond mae WMR wedi cadarnhau erbyn hyn bod y cysylltiadau presennol rhwng Birmingham International â chanolbarth Cymru hefyd yn bwysig iddyn nhw, ac roeddent o'r farn na ddylid cwtogi ar y trefniadau presennol mewn unrhyw ffordd.</p> <p>Nododd AE fod hyn yn galonddid a chroesawodd y cyfle i weithio gyda Rhyddfaint WMR i wella'r cysylltiadau â Chanolbarth Cymru.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i AE am ei diweddariad.</p>	
<p>10. TraCC - llywodraethu ac adrodd i TCC (Atodiad D)</p>  <p>Appendix D - TraCC Management Group R</p>	<p>Cyflwynodd HTM Adroddiad i Bartneriaeth TCC ar ddyfodol llywodraethu TraCC ac adrodd i TCC, a newid fformat cyfarfodydd TraCC i gyd-fynd â Phartneriaeth TCC.</p> <p>Rhoddodd HTM grynoded o waith TraCC, a sefydlwyd tua 10 mlynedd yn ôl, pan ddaeth tri Awdurdod Lleol (Ceredigion, Powys a Gwynedd) at ei gilydd i fod yn rhan o fodel consortiwm trafniadaeth rhanbarthol, dan anogaeth Llywodraeth Cymru, er mwyn alinio'r gwaith cynllunio priffyrdd strategol ar lefel ranbarthol, gan fwydo mewn i'r cynllunio ar lefel genedlaethol.</p> <p>Wrth i bethau symud ymlaen, nodwyd bod fformat presennol cyfarfodydd swyddogion a Bwrdd TraCC yn mynd â llawer o adnoddau Aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion, a bod nifer o adroddiadau'n cael eu cyflwyno ddwywaith, yng nghyfarfodydd TraCC a TCC fel ei gilydd.</p> <p>Nododd HTM fod Bwrdd TraCC, mewn cyfarfod Rheolwyr a gynhaliwyd ar 28ain Medi, wedi cefnogi Opsiwn B, sef:-</p>	

	<p>i) Newid i gyfarfod grŵp swyddogion yn unig ar gyfer gwaith ymgysylltu TraCC lle gellir trafod y cydweithio o ran gweithredu a pholisïau (Grŵp Cysylltedd a Seilwaith TCC)</p> <p>(ii) Cyfarfod TraCC blynyddol ar gyfer aelodau Cyngor Bwrdd TraCC (er mwyn cadw'r cytundeb cydweithio rhyng-awdurdod yn weithredol) a sicrhau llywodraethu da.</p> <p>(iii) Dod â TraCC a Phartneriaeth TCC at ei gilydd unwaith y flwyddyn (Diwrnod Trafnidiaeth Rhanbarthol Blynyddol), gan ganolbwyntio ar wella cyfathrebu strategol, hygyrchedd a seilwaith ar draws rhanbarth TCC.</p> <p>(iv) Byddai cyfarfodydd Partneriaeth TCC yn derbyn adroddiad oddi wrth Grŵp Cysylltedd a Seilwaith Tyfu Canolbarth Cymru bob chwarter.</p> <p>Gan argymhell hefyd - “Rhoi'r Opsiwn B arfaethedig ar waith i weithredu Grŵp Rheoli a Bwrdd TraCC am 12 mis o 1af Hydref 2016 a pharhau gyda gwaith y Swyddog Trafnidiaeth Rhanbarthol fel y'i hamlinellir uchod, gan gytuno i ymgymryd â'r rôl arweiniol ar gyfer rheilffyrdd ar ran y tri Awdurdod Lleol”.</p> <p>Roedd Partneriaeth TCC yn llwyr gefnogol a chytunodd hefyd i gefnogi Opsiwn B (fel uchod).</p> <p>Pwysleisiodd y Bartneriaeth yr angen i fod yn gynhwysol, ac am fod Bwrdd TraCC yn gweithio dan gytundeb rhyng-awdurdod oedd yn cynnwys Cyngor Gwynedd, roedd hi'n bwysig parhau i gael eu cefnogaeth a chydweithio â nhw. Cytunwyd felly y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn swyddogol i wahodd dau aelod portffolio Trafnidiaeth a'r Economi i fynychu cyfarfodydd Partneriaeth TCC.</p> <p>Nododd HTM fod yr holl waith hwn yn cydymffurfio â blaenoriaeth 5 Fframwaith Gweithredu TCC.</p> <p>Gweithredu: Rhoi Opsiwn B ar waith fel uchod (AE/HTM) ac ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddo ymuno â Tyfu Canolbarth Cymru.</p>	
<p>11. Diweddariad Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth (Atodiad E)</p>	<p>Rhoddodd Dr SF ddiweddariad i'r Bartneriaeth ar Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth (GCGIC). (Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn yr Adroddiad sydd ynghlwm, a gyflwynwyd mewn cyfarfod diweddar o Fwrdd Gwasanaeth Iechyd Ceredigion).</p> <p>Mae GCGIC yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu, cynnal a gwella gofal iechyd a chymdeithasol yn rhanbarth Canolbarth Cymru. Mae yna broblemau recriwtio yn sgil diffyg sgiliau a</p>	



Appendix E -
Progress Report on tl

chyfleoedd hyfforddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y rhanbarth. Byddant yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth i ddatblygu Canolfan Rhagoriaeth, a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn. Hefyd, mae prifysgolion Caerdydd ac Abertawe wedi dangos diddordeb mewn gosod myfyrwyr ar brofiad gwaith yn rhanbarth Canolbarth Cymru er mwyn iddynt gael profiad o weithio mewn ardal wledig.

Nododd JW, Coleg Ceredigion, fod Coleg Ceredigion yn cynnig darpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â Gofal Plant lefel 1, 2 a 3, a bod Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn gweithio ar y cyd i ddatblygu pecynnau electronig. Byddai JW yn croesawu trafodaeth bellach gyda Dr SF am y gwaith a wnaed hyd yn hyn.

Lansiwyd GCGIC gan Lywodraeth Cymru yn 2015 gyda chyllid o £100,000 a ddyranwyd am ddwy flynedd ar gyfer sefydlu'r grŵp cydweithredol. Nododd Dr SF eu bod yn gobeithio am gyhoeddiad cynnar gan Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, ar yr opsiwn a ffefrir ar gyfer datblygu Partneriaeth GCGIC ymhellach.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr SF am ei diweddariad, gan gydnabod y gwaith aruthrol a wneir gan Bartneriaeth GCGIC.

**12. Unrhyw Fater
Arall**

Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol i'w hadrodd heddiw.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu.

**Y CYNGHORYDD BARRY THOMAS
CADEIRYDD**